**C y n g o r  S i r**
# Ddinbych

# Denbighshire
## County Council

**At:** **Y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio**

Dyddiad: 15 Ebrill 2008

Llinell Uniongyrchol:01824 706210

e-bost: dcc_gweinyddol@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Gofynnir i chi ddod i gyfarfod o'r **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhelir yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, DYDD MERCHER , 23 Ebrill 2008** am **9.30A.M.**

Yr eiddoch yn gywir

I K Hearle
Clerc y Sir

**AGENDA**

Rhennir Agenda'r cyfarfod yn ddwy ran. Trafodir eitemau Rhan I ym mhresenoldeb y Wasg a'r Cyhoedd oni bai bod yr Aelodau'n penderfynu gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried eitem oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel arall. Fodd bynnag, pan fo eitemau yn Rhan II, argymhellir bod yr Aelodau'n gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried yr eitemau hynny am y rhesymau a nodir uchod.

**YMDDIHEURIADAU**

**RHAN I**

**1 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**2 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Ystyried adroddiadau gan Swyddogion Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd (amgeuir copi).

**3 MATERION GORFODI**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (amgeuir copi).
ENF/2008/36 – Ashmount, Meliden
ENF.2008/37 – Clwyd Gate Hotel, Llanbedr D.C.

**4 DIWEDDARIAD GORFODAETH**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd - er gwybodaeth (amgeuir copi).

**5 DIWEDDARIAD APELIADAU**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd - er gwybodaeth (amgeuir copi).

**6 EITEM GWYBODAETH I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO – PENDERFYNIAD APEL – FIRING RANGE, RHEWL**

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd er gwybodaeth (amgeuir copi)

**7 EITEMAU BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau y mae'r Cadeirydd wedi penderfynu eu bod yn rhai brys (yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol,1972) y nodwyd eu sylwedd o dan eitem 1 uchod**.**

**RHAN II**

Dim eitemau.

**AELODAU**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd R.E. Barton | Cynghorydd H. Jones |
| Cynghorydd B. Blakeley | Cynghorydd M.M. Jones |
| Cynghorydd J. Butterfield | Cynghorydd N. Hughes-Jones |
| Cynghorydd J. Chamberlain Jones | Cynghorydd N.J. Hughes |
| Cynghorydd J.M. Davies | Cynghorydd P.W. Owen |
| Cynghorydd M.Ll. Davies | Cynghorydd D. Owens |
| Cynghorydd S.A. Davies | Cynghorydd N.P. Roberts |
| Cynghorydd E.C. Edwards | Cynghorydd S. Roberts |
| Cynghorydd G.C. Evans | Cynghorydd J.A. Smith |
| Cynghorydd S. Frobisher | Cynghorydd D.A.J. Thomas |
| Cynghorydd I.M. German | Cynghorydd S. Thomas (Cadeirydd) |
| Cynghorydd M.A. German | Cynghorydd J. Thompson-Hill |
| Cynghorydd D. Hannam | Cynghorydd M.A. Webster |
| Cynghorydd T.R. Hughes | Cynghorydd C.H. Williams |
| Cynghorydd E.R. Jones | Cynghorydd R.Ll. Williams |

**COPIAU**:

Pob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PROTOCOL I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r canlynol yn nodi'r dull yn ôl pa un y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn cynnal y Pwyllgor Cynllunio er mwyn eglurder, cysondeb, a thegwch yn y gweithrediadau.

Wrth ategu'r protocol a'i amcanion, pwysleisiodd y Cyngor bod rhaid i'r Aelodau beidio â lobïo ei gilydd cyn Pwyllgor. Mae gallu rhai nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor i siarad gyda chaniatâd y Cadeirydd yn darparu peirianwaith digonol i bob barn gael ei mynegi yn y cyfarfod.

1. Bydd y Cadeirydd yn agor y gweithrediadau am 9.30 a.m. ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

2. Bydd Swyddogion yn hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw newidiadau i sylwedd yr agenda neu ei threfn yn cynnwys siarad cyhoeddus, gohiriadau ac eitemau a dynnwyd yn ôl. Bydd hyn yn cael ei ategu gan yr Adroddiad Adendwm – Llythyrau Hwyr a Newidiadau ("y daflen las").

3. Bydd unrhyw gais i geisiadau gael eu symud ymlaen i ddechrau'r cyfarfod yn cael ei gynnig gan Aelodau, ac yn amodol ar eilydd, bydd yn destun pleidlais.

4. Bydd ceisiadau sy'n cynnwys siaradwyr cyhoeddus yn cael eu hystyried ar ddechrau'r agenda fel arfer.

5. Bydd ceisiadau gyda siaradwyr cyhoeddus yn cael eu hystyried cyn y rheini heb siaradwyr fel arfer.

6. Y canlynol fydd trefn y drafodaeth ar bob eitem (cais cynllunio neu adroddiad gorfodi) cyn yr agenda:

   i) Siaradwyr cyhoeddus yn erbyn ac o blaid i siarad yn unol â'r protocol siarad cyhoeddus.

   ii) Y Cadeirydd i ofyn am gynigydd ac eilydd i'r argymhelliad neu am unrhyw gynigion eraill.

   iii) Bydd Swyddogion yn cyflwyno'r eitem gan nodi'r prif faterion cynllunio, yn cynnwys cyfeirio at arddangosfeydd gweledol.

   iv) Os bydd cynnig i ohirio ar gyfer Panel Archwilio Safle gan yr Aelodau yn cael ei gynnig a'i eilio, mae pa un a yw Panel Archwilio Safle i'w gynnal a'r rhesymau cynllunio dros banel o'r fath i'w trafod yn gyntaf. Mae hyn yn y cyd-destun y dylai'r cais am Banel Archwilio Safle fod ymlaen llaw i'r Pwyllgor Cynllunio fel arfer fel y nodir yn y Canllawiau i Baneli Archwilio Safle.

v) Os bu unrhyw gais yn destun Panel Archwilio Safle blaenorol, bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Aelodau hynny a'i mynychodd, yn cynnwys Aelod y Ward, i siarad yn gyntaf, cyn Aelodau eraill.

vi) Gyda cheisiadau eraill, byddir yn gwahodd Aelod y Ward i siarad yn gyntaf.

vii) Bydd Aelodau'n cael eu cyfyngu i bum munud o siarad ar y mwyaf yn unol â'r rheolau sefydlog.

viii) Unwaith y mae Aelod wedi siarad, nid yw'r Aelod i siarad eto oni bai ei fod yn gofyn am eglurhad ar bwynt sy'n codi o'r drafodaeth a hynny dim ond unwaith y bydd yr holl Aelodau eraill wedi cael y cyfle i siarad a gyda chytundeb y Cadeirydd.

ix) Yn dilyn y drafodaeth bydd y Cadeirydd yn gofyn i Swyddogion ymateb i unrhyw gwestiynau a chrynhoi unrhyw faterion sy'n codi o'r drafodaeth, yn cynnwys cyngor ar benderfyniad posibl sy'n groes i argymhelliad y Swyddogion.

x) Bydd y Cadeirydd yn ei gwneud hi'n glir fod y drafodaeth wedi'i chloi a bod y pleidleisio i ddechrau. Ni chaniateir unrhyw drafodaeth neu gwestiynau pellach ar yr eitem. Bydd y Swyddogion yn paratoi'r system bleidleisio electronig ac yn dweud wrth y Cadeirydd pryd gall y pleidleisio ddechrau.

xi) Bydd y Cadeirydd yn rhoi unrhyw gynigion i bleidlais. Mae'r system bleidleisio electronig yn caniatáu 15 eiliad i'r pleidleisio ddigwydd a rhaid i'r Aelodau fwrw eu pleidlais yn ystod yr amser hwnnw.

xii) Ni fydd y Cadeirydd yn goddef unrhyw ymyriadau gan Aelodau heb ei gytundeb na sgyrsiau clywadwy rhwng Aelodau neu Swyddogion nad ydynt yn ffurfio rhan o'r drafodaeth.

xiii) Bydd peidio â chadw at y protocol uchod yn arwain yn y lle cyntaf at rybudd gan y Cadeirydd. Gall methiant pellach arwain at gynnig o dan Reol Sefydlog 18.3 nad yw'r aelod i'w glywed ymhellach, gan arwain yn y pen draw at gynnig o dan Reol Sefydlog 18.4 fod yr aelod i adael y cyfarfod os digwydd y bydd yr ymddygiad amhriodol yn parhau.

xiv) Bydd y Cadeirydd yn datgan y penderfyniad yn glir unwaith y gwneir y penderfyniad.